# Hwyaid lledaenu

# hwyaidlledaenu

Y dyddiau hyn, mae pobl wedi'u gorlwytho â gwybodaeth felly mae cyfleu'ch neges yn galw am fwy na dim ond testun plaen. Mae ffeithluniau'n ffordd wych o helpu pobl i ddeall llawer o wybodaeth gymhleth.

## Ambell air i gall ar gyfer ffeithluniau

- Defnyddiwch ffont fwy neu liwiau trawiadol i bwysleisio negeseuon allweddol
- Gwnewch yn siŵr bod yna gydbwysedd rhwng delweddau, siartiau a thestun
- Crëwch deitl 'gwybodaeth newydd ddod i law' – beth ydy'ch darganfyddiad sydd wedi cael yr effaith fwyaf
- Defnyddiwch linellau a saethau i dywys eich cynulleidfa trwy'ch ffeithlen – fel adrodd stori!
- Defnyddiwch ffeithlenni i gefnogi'ch gweithgarwch ar y cyfryngau cymdeithasol a'ch postiadau blogio
- Peidiwch â defnyddio gormod o liwiau – defnyddiwch 3 – 5 lliw sy'n cyd-fynd yn dda

**I gael gwybod mwy, cysylltwch â'r tîm cyfathrebu:**

ymchwiliechydagofal@wales.nhs.uk
02920 230 457
@YmchwilCymru
ymchwiliechydagofal.llw.cymru/map-trywydd-ymchwil

# Peidiwch â gadael eich ymchwil ar y silff

Mae gan bob un ohonon ni stori i'w hadrodd, ond mae rhai straeon yn fwy neilltuol nag eraill. Fe fydd dweud dim mwy na bod astudiaeth ymchwil wedi'i chynnal ddim yn gwneud y tro; mae'n rhaid i bobl allu ymdeimlo â'r canlyniadau hynny - ac mae angen i ni wybod sut y bydd yn helpu pobl go iawn. Felly, adroddwch eich stori ymchwil...

Meddyliwch am eich cynulleidfa. Pwy ydyn nhw a beth sydd ei angen arnyn nhw?

Cadwch bethau'n syml! Peidiwch â defnyddio jargon fel eich bod chi'n annog cynulleidfaoedd i ddysgu am eich ymchwil.

Beth ydy effaith eich ymchwil i'ch cynulleidfa? Pam y dylai fod o bwys iddyn nhw?

Beth ydy'ch ffactor 'wow'? Mae'r straeon sy'n cael eu hadrodd orau'n creu emosiwn i'w cynulleidfa – dewch o hyd i'r 'wow' yn eich stori chi.

Mae cynulleidfaoedd eisiau gwybod am fwy na dim ond data. Beth ydy'r stori y tu cefn i'ch prosiect ymchwil?

Eich stori ymchwil

I gael gwybod mwy, ewch i'r Map Trywydd Ymchwil yn ymchwiliechydagofalcymru.llyw.cymru